# ATHRO/ATHRAWES

## YSGOL GODRE'R BERWYN

## SWYDD DDISGRIFIAD ATHRO/ATHRAWES

**Graddfa Gyflog:**

**Pwyntiau Cyflog:**

**Cyflog: £32,433 - £49,944**

**Dyletswyddau**

Mae'r swydd ddisgrifiad hwn i'w gyflawni yn unol â darpariaethau Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon ysgol ac o fewn amrediad dyletswyddau athrawon fel y'u nodir yn y ddogfen honno cyn belled ag y bo hynny'n berthnasol i deitl y swydd a graddfa cyflog y sawl sydd yn y swydd. Mae'r swydd hefyd yn ddarostyngedig i Amodau Gwaith Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (Y Llyfr Bwrgwyn) ac i unrhyw amodau perthnasol a gytunwyd yn lleol.

Bydd pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol yn gweithredu pob cais neu gyfarwyddyd rhesymol a roddir gan y Pennaeth a/neu ei gynrychiolydd. Yn ychwanegol, mae'n rhesymol disgwyl gweithredu a chwblhau rhai dyletswyddau penodol yn unol â pholisïau'r ysgol:

**Cyfrifoldebau Penodol Athro/awes**

Y cyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â swydd yr athro/athrawes dosbarth fydd

- Gweithredu'r ***'Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth'***. Dylid hybu nodweddion, gwerthoedd a dealltwriaeth broffesiynol, cynllunio gwaith yn hyderus gan osod targedau i'w monitro a'u hasesu wrth gynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.
- Sicrhau lles a diogelwch pob disgybl. Tynnu sylw Pennaeth Ffês, Tiwtor Dosbarth neu'r Pennaeth at unrhyw broblem.
- Cynnig addysg o'r radd flaenaf i bob disgybl, gan dalu sylw teilwng i oed, gallu a diddordebau'r unigolion.
    - Creu a chynnal man gwaith deniadol a phleserus, gan ddefnyddio arddangosfeydd o waith plant a staff yn rheolaidd, ac annog disgyblion i gadw'r ystafelloedd dysgu yn lân ac yn daclus.
    - yn unol ag arweiniad cyfredol yr ysgol, cynllunio rhaglenni gwaith yn ofalus a thrylwyr. Hefyd, cynllunio a pharatoi gwersi yn ofalus a thrylwyr.
    - Paratoi deunyddiau dysgu ac addysgu ar gyfer y gwersi a ddysgir.
    - Sicrhau fod adnoddau/deunyddiau/offer perthnasol ac addas yn barod ymlaen llaw.
    - Sicrhau fod gwersi yn cychwyn ac yn gorffen ar amser a bod y disgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth a'u hanfon allan dan reolaeth a threfn.
    - Dysgu â brwdfrydedd gan ymestyn pob disgybl a roddir i'w ofal hyd eithaf ei allu.
    - Gosod a marcio gwaith y disgyblion.

- Cynnal disgyblaeth yn unol â’r rheolau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan yr ysgol;
- Cyfrannu at gyfarfodydd, trafodaethau a threfniadau rheolaeth yn ôl y gofyn i ddatblygu a chydlynu gwaith yr ysgol;
- Cyfrannu at drefniadau’r ysgol ar gyfer asesu ac adrodd ar gyflawniad disgyblion;
- Cymryd rhan yn nhrefniadau’r ysgol ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad;
- Cyfranogi i drefniadau hyfforddi a datblygiad proffesiynol sy’n berthnasol i’w swydd a chyfrifoldebau;
- Cynghori, arwain a chydweithio â’r pennaeth ag athrawon eraill yn ôl y gofyn mewn perthynas â darparu a datblygu rhaglenni gwaith, deunyddiau addysgu, dulliau asesu a.y.y.b.;
- Mynychu a chyfrannu i gyfarfodydd staff sy’n ymwneud â chwricwlwm yr ysgol, trefniadaeth yr ysgol, gan gynnwys gweithdrefnau bugeiliol.
- Hunanarfarnu safonau ac arferion dysgu - ymyrryd yn bwrpasol i godi safonau.
- Cyflawni dyletswyddau bore, egwyl a phrynhawn yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol a’r amserlen a gyhoeddir ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.
- Mynychu cyfarfodydd amrywiol ar nosweithiau Llun yn unol â threfniadau’r ysgol.
- Mynychu Nosweithiau Rhieni yn ôl y galw er mwyn trafod datblygiadau disgyblion.
- Mynychu cyfarfodydd eraill yn ôl y galw, gan gynnwys y tu allan i oriau arferol yr ysgol.
- Cyfrannu i’w ddatblygiad personol a phroffesiynol ei hun gan fynychu HMS yn ôl y galw.
- Hybu blaenoriaethau CDY presennol yr ysgol
- Cyfrannu’n bwrpasol i ddatblygu Ysgol Godre’r Berwyn i fod yn ganolfan sy’n cynrychioli’r arferion a’r safonau proffesiynol uchaf.
- Cydweithio`n effeithiol a pharchus fel aelod o dîm proffesiynol.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am ei ddatblygiad proffesiynol ei hun.

<u>Cysylltiadau:</u>
Bydd y sawl sydd yn y swydd yn:-
-rhyngweithio ar lefel broffesiynol efo'i gydweithwyr ac yn ceisio sefydlu a chynnal perthynas gynhyrchiol a nhw er hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o bynciau o fewn cwricwlwm yr ysgol gyda golwg ar wella ansawdd y dysgu yn yr ysgol.
-gyfrifol am oruchwylio gwaith cynorthwy-ydd sy'n berthnasol i'w ddyletswyddau.

Yn ychwanegol gofynnir i chwi ymgymryd â'r dyletswyddau canlynol:

1. Ymgymryd a'ch dyletswyddau fel athro / athrawes sy'n gyfrifol am y maes / meysydd isod yn yr ysgol yn unol a Chynllun Datblygu’r Ysgol…
   -
2. Cydweithio gydag athrawon eraill i ddatblygu polisi a chynllun gwaith yn y maes / meysydd isod yn unol a Chynllun Gwella'r Ysgol:
   -

**Mae’r uchod yn disgrifio`r ffordd y disgwylir i`r deilydd weithredu a chwblhau y dyletswyddau a nodir. Gellir newid y swydd ddisgrifiad a'r cyfrifoldebau penodol trwy gytundeb.**

Yr wyf wedi darllen yr uchod ac yn ymwybodol o'r cynnwys.

Llofnod.............................................Dyddiad................

Pennaeth..........................................Dyddiad................

**MANYLION PERSON**

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | **Athro/Athrawes Ysgol Godre’r Berwyn** |
| Adran | Addysg |
| Lleoliad | Ysgol Godre’r Berwyn |

**Athro/Athrawes**

| GOFYNION ANGENRHEIDIOL AR GYFER Y SWYDD | |
|---|---|
| **CYMWYSTERAU /HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL/CYMWYSEDDAU** | **Dull Asesu** |
| • Gradd Anrhydedd | Ffurflen Gais |
| • Statws athro wedi cymhwyso | Ffurflen Gais |
| **GWYBODAETH A SGILIAU** | |
| • Meddu ar wybodaeth dda o ddatblygiadau cyfoes mewn addysg yn lleol ac yn genedlaethol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Meddu ar ddealltwriaeth eglur o egwyddorion dysgu o ansawdd, addysgu ac asesu yn y sectorau cynradd ac uwchradd | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Meddu ar ddealltwriaeth gadarn o brosesau hunan-arfarnu a dealltwriaeth gyflawn o bwrpas cynllun datblygu yr ysgol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Meddu ar wybodaeth gadarn o strategaethau gweithredu sy'n sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Gallu paratoi strategaethau ar gyfer sicrhau cynhwysiad cymdeithasol, amrywiaeth a mynediad. | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Meddu ar wybodaeth dda o'r cwricwlwm ehangach tu hwnt i'r ysgol a'r cyfleoedd ar gyfer disgyblion a chymuned yr ysgol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Dangos brwdfrydedd personol at y defnydd o'r Iaith Gymraeg/Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **PROFIAD** | |
| • Tystiolaeth o brofiad cyson a pherthnasol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Profiad o ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu effeithiol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Profiad o sefydlu ac adeiladu partneriaethau gyda rhieni, y gymuned a gyda phartneriaid eraill | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Tystiolaeth o weithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **NODWEDDION A GWERTHOEDD PERSONOL** | |
| • Dangos brwdfrydedd ac ymroddiad tuag at y broses ddysgu | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Hawdd mynd ato/ati a gallu ysbrydoli, ysgogi a gosod her i eraill | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Gallu arddangos yn glir i ba gyfeiriad mae'r ysgol yn mynd | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Parod i gydweithio ag asiantaethau eraill er lles disgyblion, teuluoedd a'r gymuned | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Yn rhugl o ran safon sgiliau ar lafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **ANGHENION Y BUASAI'N DDYMUNOL EU CAEL YN Y SWYDD** | |
| • Gradd Uwch neu gymhwyster cyfwerth | Ffurflen gais a chyfweliad |
| • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | Ffurflen gais a chyfweliad |

**ATODIAD I SWYDD DDISGRIFIAD: ATHRO/ATHRAWES**

**Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth - wedi eu haddasu gan yr *Ysgol***

**Gwerthoedd ac Ymagweddau Cyffredin**

- Iaith a Diwylliant Cymru
  Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson ei bod yn hollbwysig hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cy e i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- Hawliau Dysgwyr
  Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn ymagwedd yr athro at ei swydd. Mae gan yr athro ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni.

- Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol
  Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hollbwysig. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cy e i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- Dysgwyr Proffesiynol
  Mae'r athro yn ddysgwr proffesiynol ac yn ymrwymo i ddatblygu, cydweithredu ac arloesi'n barhaus drwy gydol ei yrfa.

- Rôl yn y System
  Mae'r athro yn ymrwymedig i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n chwarae rhan ddylanwadol wrth ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.

- Hawl Broffesiynol
  Mae gan yr athro hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun yn sefydliad dysgu. Mae gan yr athro yr ymreolaeth i gyfrannu at y proffesiwn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac mae ganddo'r hawl i ddechrau a chefnogi gwelliannau i'r ysgol er budd dysgwyr.

**Y Pum Safon Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth**
- Addysgeg…mae'n holl bwysig
- Arweinyddiaeth…helpu i dyfu
- Dysgu Proffesiynol…mynd yn ddyfnach
- Arloesi…symud ymlaen
- Cydweithredu…galluogi lledaenu

| Safon | Elfennau |
|---|---|
| **ADDYSGEG** | |
| Mireinio Addysgu | Rheoli’r amgylchedd dysgu |
| | Asesu |
| | Gwahaniaethu |
| | Cofnodi ac Adrodd |
| | Cynnwys Partneriaid mewn dysgu |
| Hyrwyddo Dysgu | Pedwar diben i ddysgwyr |
| | Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu |
| | Profiadau dysgu cyfunol |
| | Cyd-destunau bywyd go iawn dilys |
| | Dilyniant mewn dysgu |
| | Themau trawsgwricwlaidd |
| Dylanwadu ar Ddysgwyr | Herio a disgwyliadau |
| | Gwrando ar ddysgwyr |
| | Dysgwyr yn arwain dysgu |
| | Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr |
| | Myfyrio ar ddysgu |
| | Deilliannau dysgu a lles |
| **CYDWEITHREDU** | Ceisio cyngor a chymorth |
| | Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol |
| | Cefnogi a datblygu eraill |
| | Galluogi gwelliannau |
| **DYSGU PROFFESIYNOL** | Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil |
| | Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol |
| | Dysgu proffesiynol parhaus |
| | Sgiliau Cymraeg |
| **ARLOESI** | Cynnig arbenigedd |
| | Datblygu technegau newydd |
| | Gwerthuso effaith newid mewn ymarfer |
| **ARWEINYDDIAETH** | Cymryd cyfrifoldeb personol |
| | Arfer cyfrifoldeb corfforaethol |
| | Arwain cyd-weithwyr, prosiectau a rhaglenni |
| | Cefnogi rolau arweinyddiol ffurfiol |